



STRATEGAETH

BIOAMRYWIAETH

CHWE 2022

CYNNWYS

03 — CRYNODEB GWEITHREDOL

04 — CYFLWYNIAD A PHWRPAS

06 — DŴR CYMRU 2050 A'R AMCANION O RAN BIOAMRYWIAETH

06 — LLYWODRAETHU

08 — AMCANION STRATEGOL

08 — TROSOLWG O'R AMCANION STRATEGOL O RAN BIOAMRYWIAETH

08 — ATEGU DATGANIAD O GENHADAETH DCWW

08 — ATEGU DATGANIAD O GENHADAETH DCWW

10 — AMCANION

12 — ADFER CYNEFINOEDD A GOFALU AM Y SAFLEOEDD
A AMDDIFFYNNIR SYDD YN EIN GOFAL

13 — GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH Â'R RHEOLEIDDWYR A'R RHANDDEILIAID,
A HYRWYDDO CYFLEOEDD YMCHWIL

14 — GWELLA'R FFORDD MAE RHYWOGAETHAU GORESGYNNOL
ESTRON (INNS) YN CAEL EU RHEOLI

15 — DATBLYGU AC YMGYSYLLTU EIN CYDWEITHWYR FEL CENHADON, A GWEITHIO
I GAEL GWELL DEALLTWRIAETH O DDISGWYLIADAU EIN CWSMERIAID

16 — CYNNAL A CHYFOETHOGI BIOAMRYWIAETH YN EIN HASEDAU GWEITHREDOL
A'R TIR SYDD YN EIN GOFAL

17 — Y CYNLLUN GWEITHREDU

17 — Y CYNLLUN GWEITHREDU CYFREDOL

17 — Y CYNLLUN GWEITHREDU CYFREDOL

17 — CASGLIAD

CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae ein strategaeth bioamrywiaeth yn pennu ein huchelgeisiau, ein hamcanion a'n cynllun gweithredu i gynnal a gwella bioamrywiaeth a gwytnwch ecolegol ar draws ein hasedau gweithredol a'r tir sydd yn ein gofal wrth i ni gyflawni ein swyddogaethau. Mae'r strategaeth yn caniatáu i'r busnes barhau i gyflawni ei swyddogaethau craidd wrth gynorthwyo ein rheoleiddiwr – Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r argyfwng bioamrywiaeth sy'n ein hwynebu. Trwy wneud hynny, byddwn ni'n helpu i ddiogelu ein hamgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, ac yn bodloni disgwyliadau cwsmeriaid.

EIN CENHADAETH GYFFREDINOL
O RAN BIOAMRYWIAETH YW:

“
CYNNAL A GWELLA
BIOAMRYWIAETH WRTH GYFLAWNI
EIN SWYDDOGAETHAU ER LLES
CENEDLAETHAU HEDDIW A
RHAI'R DYFODOL.

Mae ein cenhadaeth yn cysylltu'n uniongyrchol â'n dyletswydd o dan Ran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n gofyn ein bod ni'n cynhyrchu ac yn cyhoeddi cynllun gweithredu bioamrywiaeth corfforaethol ac yn adrodd arno bob 3 blynedd. Trwy gyflawni'r weledigaeth hon byddwn ni'n cynorthwyo'r sefydliad i gyflawni ei ofynion deddfwriaethol mewn perthynas â bioamrywiaeth ac ecoleg, ac yn helpu i osod ein busnes mewn sefyllfa gynaliadwy.

Bydd ein hamcanion strategol i gyflawni hyn, y mae ein cynllun bioamrywiaeth yn eu cynnal eisoes, yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

UN

ADFER CYNEFINOEDD A GOFALU AM Y SAFLEOEDD
A AMDDIFFYNNIR SYDD YN EIN GOFAL

DAU

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH Â'R
RHEOLEIDDWYR A'R RHANDDEILIAID,
A HYRWYDDO CYFLEOEDD YMCHWIL

TRI

GWELLA SUT MAE RHYWOGAETHAU
GORESGYNNOL ESTRON (INNS) YN CAEL EU RHEOLI

PEDWAR

DATBLYGU A CHYSYLLTU EIN CYDWEITHWYR
FEL CENHADON A GWEITHIO I DDEALL
DISGWYLIADAU EIN CWSMERIAID YN WELL

PUMP

CYNNAL A GWELLA BIOAMRYWIAETH YN EIN
HASEDAU GWEITHREDOL AC AR Y TIR SYDD
YN EIN GOFAL

Nod y strategaeth yw cyflawni gwelliannau tymor byr mewn perfformiad trwy ein cynllun bioamrywiaeth 'Neilltuo Amser ar gyfer Natur 2020' a chyflawni cynlluniau gwella ar gyfer y tymor canolig (2030) wrth sicrhau bod ein cynlluniau'n gyson ag amcanion tymor hwy ein gweledigaeth ar gyfer 2050 a'r tu hwnt. Mae'n clustnodi'r risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â hyn hefyd.

CYFLWYNIAD A PHWRPAS

Mae ein strategaeth bioamrywiaeth yn clustnodi'r risgiau, y sialensiau a'r cyfleoedd ar gyfer DCWW â'r nod o fod yn fwy uchelgeisiol wrth ddelio â'r argyfwng bioamrywiaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi ei ddogfennu'n helaeth hefyd ochr yn ochr ag argyfwng yr hinsawdd. Am fod diddordeb cwsmeriaid yn yr amgylchedd yn cynyddu hefyd, mae hi'n bwysig bod ein rhaglen fuddsoddi'n adlewyrchu'r sentiment yma sydd ar dwf ymysg ein cwsmeriaid, a'n bod ni'n canolbwyntio ar yr argyfyngau tymor hir sy'n ein hwynebu, yn ogystal â delio â materion mwy aciwt o ran perfformiad asedau.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wedi gosod dyletswydd gadarnach o ran bioamrywiaeth ar awdurdodau cyhoeddus, sy'n cynnwys ymgymerywyr dŵr a charthffosiaeth. Mae Adran 6 yn mynnu ein bod yn "cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny, hyrwyddo cydnherthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol". Mae'r ddyletswydd yn gosod gofynion penodol ar y mwyafrif o awdurdodau cyhoeddus i gyhoeddi dogfennau sy'n disgrifio sut y maent yn cyflawni'r ddyletswydd hon. Yn 2017, ni oedd yr awdurdod cyhoeddus cyntaf, hyd y gwyddom, i gydymffurfio ag adran 6(6) trwy gyhoeddi ein cynllun bioamrywiaeth statudol, "Neilltuo Amser ar gyfer Natur". Roedd hyn yn pennu sut roeddem ni'n bwriadu cyflawni ein dyletswydd gadarnach o ran bioamrywiaeth. Mae'r cynllun yn cynnwys 30 o ymrwymiodau penodol sy'n gysylltiedig â gweithredoedd ar draws y busnes. Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddwyd ein cynllun bioamrywiaeth diweddaraf, 'Neilltuo Amser ar gyfer Natur 2020' - sef ein hail gynllun hyd yn hyn. Mae'r cynllun yn dal i gefnogi'n gryf ein gweledigaeth ar gyfer 2050 a'n hymatebion strategol.

Mae'r 30 ymrwymiad yn ein cynllun bioamrywiaeth yn ategu nifer o ffrydiau gwaith ar draws y sefydliad. Yn eu plith, er enghraifft, mae ein siwrnai i Garbon Net o Sero 2040, a'n gwelliannau parhaus ym maes caffael cynaliadwy.

Wrth symud ymlaen, mae yna nifer o gyfleoedd i'w gwreiddu o ran bioamrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys newidiadau mewn deddfwriaeth fel Bil Amaethyddiaeth Gynaliadwy (Cymru) a ddisgwyllir yn 2022, y disgwyllir iddo bennu'r safonau gofynnol o ran defnydd a rheoli tir. Y gobaith yw y bydd hyn yn caniatáu hefyd ar gyfer datblygu fframweithiau gwasanaeth o ran ecosystemau. Yn yr un modd, mae'n bosibl bydd Deddf Newydd yr Amgylchedd (2021) yn cyflwyno gofyniad ar gyfer sicrhau cynnydd net mewn bioamrywiaeth yng Nghymru (cynnwys gwelliannau i safleoedd bioamrywiaeth fel amod cynllunio). Rydyn ni'n disgwyl canllawiau manwl gan Lywodraeth Cymru ar y newidiadau y bydd y Ddeddf newydd yma'n eu cynnig. Croesewir newidiadau eraill o ran polisi hefyd, fel y rhai i hwyluso mwy o ddefnydd o atebion 'gwyrddlas' sy'n seiliedig ar natur.

Byddwn ni'n parhau i gefnogi gwaith ar y cyd â'n partneriaid, gan geisio cyllid o ffynonellau allanol er mwyn helpu i adeiladu a chyflawni prosiectau graddfa fwy y gallwn eu cyflawni er ein pennau ein hunain, fel y ceisiadau LIFE £15m sy bellach yn gweithredu nawr ar draws y gogledd ar de er mwyn gwella cynefinoedd afonol. Rhaid i fioamrywiaeth gystadlu â blaenoriaethau amgylcheddol eraill a allai gael eu hystyried yn flaenoriaeth fwy dybryd, fel y ffordd orau o leihau'r maetholion sy'n llygru ein hafonydd. Dylid nodi y gall prosiectau bioamrywiaeth gymryd amser sylweddol i'w cyflawni ac i wireddu eu hallbwn, sy'n ei gwneud hi'n anodd gweld unrhyw enillion cyflym.

ER MWYN BYWYD GWYLLT

Mae dyletswydd gyfreithiol arnom o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016), i gynnal, gyfoethogi bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau wrth i ni gyflawni ein swyddogaethau. Rydyn ni nodi'n glir sut byddwn ni'n mynd ati i wneud hyn yn ein Cynllun Bioamrywiaeth 'Neilltuo Amser ar gyfer Natur' o gyhoeddwyd yn 2020.

AM FANYLION → [DWRCYMRU.COM](https://www.dwrcymru.com)

AMCANION DŴR CYMRU 2050 A BIOAMRYWIAETH

Lluniwyd y strategaeth hon i egluro sut y byddwn ni'n cefnogi'r elfennau hynny sy'n berthnasol i fioamrywiaeth a bennwyd yn Ymatebion Strategol Dŵr Cymru 2050. Wrth ddatblygu mentrau bioamrywiaeth, rhaid i ni gynllunio ar gyfer y tymor hir, ac mae yna ansicrwydd ynghylch dyfodol yr amgylchedd yn hynny o beth.

Mae yna sialensiau y mae angen mynd i'r afael â nhw hefyd ynghylch disgwyliadau cynyddol cwsmeriaid a newidiadau rheoliadol. Fodd bynnag, bydd yna lawer o gyfleoedd cyffrous i helpu i adfer bioamrywiaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol hefyd, fel prosiectau ymchwil arloesol newydd i ddeall y cysylltiadau rhwng optimeiddio asedau a bioamrywiaeth, gwelliannau yn seiliedig ar natur, a dad-ddofi tir (trwy gadwraeth, ailgyflwyno ac adfywiad naturiol) yn ogystal â chyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â thimau mewnol, rheoleiddwyr, rhanddeiliaid a nifer o sefydliadau eraill er budd cwsmeriaid a'r amgylchedd. Mae'r cyfleoedd hyn yn debygol o fod wrth galon ein buddsoddiadau mewn gwrthbwys Carbon, diogelu ansawdd dŵr yn ei darddle, a gwahanu dŵr wyneb (Systemau Draenio Cynaliadwy/SuDs). Felly mae angen sicrhau dull gweithredu cydlynol ac integredig.

LLYWODRAETHU

Sefydlwyd Grŵp Strategaeth a Pholisi Amgylcheddol DCWW i oruchwyllo cyflawniad mentrau amgylcheddol y Cwmni ynghyd â'u cynlluniau gweithredu cysylltiedig. Cyfarwyddwr yr Amgylchedd yw cadeirydd y grŵp yma ac fe'i cynorthwyr gan yr holl Benaethiaid Gwasanaeth ac arbenigwyr ym maes yr amgylchedd o fewn y timau gweithredol.

Yn benodol, bydd y strategaeth hon yn llywio Ymateb Strategol 14 'Cynorthwyo ecosystemau a bioamrywiaeth' yn ogystal â'r diwygiadau a wnaed i Ddŵr Cymru 2050. Yn hynny o beth, byddwn ni'n canfod beth yw'r peth iawn i'w wneud nawr ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, ac er mwyn bodloni disgwyliadau cyfredol ein cwsmeriaid. Wrth gwrs, bydd ein holl waith yn y maes yma'n dibynnu ar argaeledd cyllid, a pharodrwydd cwsmeriaid i gefnogi ein hagenda bioamrywiaeth.

Rydyn ni wedi bod yn ymgynghori â'n Panel Ymgynghorol Annibynnol allanol ar yr Amgylchedd (IEAP) am unrhyw newidiadau o bwys i'r cynllun bioamrywiaeth, a byddwn ni'n parhau i wneud hynny. Rydyn ni'n eu diweddarau'n gyson hefyd ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r amcanion bioamrywiaeth. Byddan nhw, yn eu tro, yn ein diweddarau ni ar eu cynnydd wrth drwsio a chynnal bioamrywiaeth Cymru.

Caiff y ddogfen hon ei hadolygu gan y Cyngorydd Ecoleg a Bioamrywiaeth yn flynyddol neu os bydd newid o bwys yn codi. Caiff y ddogfen sêl bendith Grŵp Strategaeth a Pholisi Amgylcheddol DCWW yn sgil ymgynghoriad ar yr IEAP.

Adolygir y cynllun bioamrywiaeth bob 3 blynedd a bwriedir cyflawni'r adolygiad nesaf yn 2023.



— ER MWYN Y DYFODOL

Gweledigaeth a rennir ar gyfer y dyfodol a rheoli draenio a dŵr wyneb yw'r cynllun Draenio a Rheoli Dŵr Gwastraff. Gweler hefyd ein prosiectau Rheoli Adnoddau mewn Ffordd Gynaliadwy (SMNR) a'r Fframwaith Asesu Gorlifoedd Storm (SOAF).

AM FANYLION → [DWRCYMRU.COM](https://www.dwrcymru.com)

YR AMCANION STRATEGOL

— TROSOLWG O'R AMCANION STRATEGOL O RAN BIOAMRYWIAETH



Cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth wrth gyflawni ein swyddogaethau er lles cenedlaethau heddiw a rhai'r dyfodol.



Cynorthwyo Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r argyfwng Bioamrywiaeth er mwyn diogelu ein hamgylchedd ar gyfer cenedlaethau i ddod.



Cyflawni ein Cynllun Bioamrywiaeth, cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth ar ein safleoedd wrth gyflawni'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer bioamrywiaeth ac ecoleg.



UN

Adfer cynefinoedd a gofalu am y safleoedd a amddiffynnir sydd yn ein gofal

TRI

Gwella sut mae Rhywogaethau Goresgynnol Estron (INNS) yn cael eu rheoli

PUMP

Cynnal a gwella bioamrywiaeth yn ein hasedau gweithredol ac yn y tir sydd yn ein gofal

DAU

Gweithio mewn partneriaeth â'r rheoleiddwyr a'r rhanddeiliaid, a hyrwyddo cyfleoedd ymchwil

PEDWAR

Datblygu a chysylltu ein cydweithwyr fel cenhadon a gweithio i ddeall disgwyliadau ein cwsmeriaid yn well

— ATEGU'R DATGANIAD O WELEDIGAETH DCWW

Ein Gweledigaeth yn DCWW yw 'ennill ffydd ein cwsmeriaid bob un dydd'. Ni chaiff hyn ei gyflawni trwy ddarparu gwasanaethau rhagorol i gwsmeriaid yn unig. Mae angen hefyd i ni ddeall anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid mewn perthynas â'r amgylchedd, ac adeiladu a chyflawni cynlluniau i ddiwallu'r rhain.

I ategu hyn, ein cenhadaeth ar gyfer bioamrywiaeth yw:

“
**CYNNAL A
CHYFOETHOGI
BIOAMRYWIAETH
WRTH GYFLAWNI EIN
SWYDDOGAETHAU ER
LLES CENEDLAETHAU
HEDDIW A RHAI'R
DYFODOL.**

”

— ATEGU DATGANIAD CENHADAETH DCWW

Cefnogi datganiad cenhadaeth y cwmni a bennwyd yn Dŵr 2050 – 'Dod yn wasanaeth dŵr o safon wirioneddol ryngwladol, sy'n wydn ac yn gynaliadwy, er budd cenedlaethau'r dyfodol' – o safbwynt bioamrywiaeth, byddwn ni'n:

UN

Cynorthwyo Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r argyfwng bioamrywiaeth er mwyn diogelu ein hamgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

DAU

Cyflawni ein Cynllun Bioamrywiaeth a chynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth ar ein safleoedd wrth gyflawni'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer bioamrywiaeth ac ecoleg hefyd.

AMCANION

Mae ein hamcanion i gyflawni hyn fel a ganlyn, a'r rhain sy'n pennu strwythur y cynllun bioamrywiaeth:

UN

ADFER CYNEFINOEDD A GOFALU AM Y SAFLEOEDD A AMDDIFFYNNIR SYDD YN EIN GOFAL

 T12

TRI

GWELLA SUT MAE RHYWOGAETHAU GORESGYNNOL ESTRON (INNS) YN CAEL EU RHEOLI

 T14

PUMP

CYNNAL A GWELLA BIOAMRYWIAETH YN EIN HASEDAU GWEITHREDOL AC AR Y TIR SYDD YN EIN GOFAL

 T16

DAU

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH Â'R RHEOLEIDDWYR A'R RHANDDEILIAID, A HYRWYDDO CYFLEOEDD YMCHWIL

 T13

PEDWAR

DATBLYGU A CHYSYLLTU EIN CYDWEITHWYR FEL CENHADON A GWEITHIO I DDEALL DISGWYLIADAU EIN CWSMERIAID YN WELL

 T15

Mae ein cynllun bioamrywiaeth cyfredol 'Neilltuo Amser ar gyfer Natur 2020' yn cynnwys 30 o ymrwymiodau, a gweithredoedd sydd ar droed, neu sy'n agos at gael eu cwblhau.

Bydd yna adroddiad ar gynnydd yn Rhagfyr 2022. Dros y tudalennau nesaf pennir y cyfeiriad a gynigir ar gyfer bioamrywiaeth wrth edrych tua'r dyfodol, gydag amryw o amserlenni ar gyfer cyflawni ac allbwn.

— ER MWYN Y PRYFED

Mae PestSmart yn annog pobl i ystyried dulliau mwy doeth o reoli chwyn, plâu ac afiechydon sy'n lleihau eu heffaith ar bobl, dŵr neu fywyd gwyllt.

AM FANYLION → [DWRCYMRU.COM](https://www.dwrcymru.com)

UN

ADFER CYNEFINOEDD A GOFALU AM Y SAFLEOEDD A AMDDIFFYNNIR SYDD YN EIN GOFAL

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng bioamrywiaeth, rhaid gosod ffocws ar adfer cynefinoedd i gyflwr ffafriol yn ogystal â rheoli ein safleoedd a amddiffynnir a'r rhywogaethau sy'n byw ynddynt. Rhestrir y deilliannau rydym am eu cyflawni isod, ond am fod adnoddau a chyllid yn gyfyngedig i DCWW a'n rhanddeiliaid fel ei gilydd, bydd angen i ni flaenoriaethu ein meysydd ffocws. I gynorthwyo'r broses hon, rydyn ni'n gweithio i wella ein data gwaelodlin.

Er mwyn adfer cynefinoedd a gofalu am ein safleoedd a amddiffynnir, os bydd cyllid ar gael, byddwn ni'n:



Canolbwyntio ar reoli Coetiroedd, yn arbennig ar y tir sydd yn ein gofal, gan gynnwys plannu coed ac adfer safleoedd dynodedig i gyflwr ffafriol;



Adfer Mawndiroedd er mwyn cynorthwyo'r strategaeth garbon lle bo modd, a datblygu asesiad gwaelodlin i ganfod ardaloedd sy'n addas i'w hadfer;



Cefnogi ailgyflwyno er Cadwraeth lle bo cyflawnwyd asesiad â thystiolaeth gref i osgoi unrhyw effeithiau andwyol ar Ansawdd Dŵr ac asedau DCWW. Yn hynny o beth, hybu dolydd blodau gwyllt lle bynnag y bo modd ar draws ein safleoedd gweithredol a'n hystâd. Llunio amserlen cynnal a chadw tiroedd diwygiedig er mwyn ehangu'r coridorau ecolegol ar draws ein hardal weithredu;



Cynorthwyo adferiad cynefinoedd lle bo modd trwy weithio gyda grwpiau lleol a pherchnogion tir i ddenu cefnogaeth dros y newidiadau sydd eu hangen. Rydyn ni'n cydnabod y bydd llwyddiant hyn yn gofyn am feithrin perthnasau a gweithredu mewn ffordd gefnogol;



Archwilio beth y gellir ei gyflawni o fewn yr amgylchedd Morol i amddiffyn rhywogaethau morol, y tu hwnt i'n hymdrechion i ymchwilio a lleihau ein mewnbwn o ficroblastigau a chemegolion i'r amgylchedd.



Yn rhan o'n Siwrnai i Sero Carbon, byddwn ni'n plannu coed, a fydd yn dod â buddion o ran bioamrywiaeth hefyd.

AM FANYLION → DWRCYMRU.COM

DAU

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH Â'R RHEOLEIDDWYR A'R RHANDEILIAID, A HYRWYDDO CYFLEOEDD YMCHWIL

Byddwn ni'n parhau i ddatblygu perthnasau gwaith cadarn â'r rheoleiddwyr a'r rhanddeiliaid er mwyn meithrin cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth, ac yn arbennig partneriaid sy'n gallu denu cyllid. Mae angen cyflawni gwaith ymchwil sylweddol mewn sawl maes o fewn bioamrywiaeth o hyd er mwyn cefnogi cynigion ar gyfer gwelliannau at y dyfodol a ffyrdd newydd o feddwl.

Ymhlith eraill, mae'r meysydd posibl ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a chyfleoedd am waith ymchwil yn cynnwys:



Gwaith i ffurfio safbwynt o fewn y sector ar ailgyflwyno rhywogaethau penodol, fel afancod, yn y DU. Ar hyn o bryd, nid ydym yn deall y risgiau sydd ynghlwm wrth eu hailgyflwyno o ran ansawdd dŵr afonol neu ecoleg;



Beth sydd ei angen i gynorthwyo bioamrywiaeth yn yr amgylchedd morol, yn ogystal ag archwilio cyfleoedd sy'n gysylltiedig ag ansawdd yr aer ac allyriannau;



Datblygu gwell dealltwriaeth am y berthynas rhwng iechyd y pridd a bioamrywiaeth;



Defnyddio iechyd cen, mwsogl a ffwng i fesur cyflwr ein hardaloedd coetir mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd;



Datblygu ein dealltwriaeth am Rywogaethau Goresgynol Estron, newid hinsawdd ac ansawdd dŵr;



Deall y risgiau sy'n codi o blannu nifer fawr o goed o ran ansawdd dŵr, fel asideiddio, newidiadau yng ngharbon y pridd ac erydiad;



Canfod y 'man pêr' rhwng bioamrywiaeth, datblygu atebion yn seiliedig ar natur, dulliau Cynaliadwy o Reoli Adnoddau Naturiol (SMNR), Cynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff a Chynlluniau Strategol eraill (DWMP) a Charbon;




Parhau i weithio gyda thimau gweithredol i leihau effaith gweithgareddau fel lladd gwair a defnyddio plaladdwyr ar fioamrywiaeth ac ecoleg ein safleoedd;



Parhau i ddatblygu perthnasau â'n partneriaid wrth gyflawni ein rhaglen fuddsoddi er mwyn gwella eu dealltwriaeth am fioamrywiaeth a sut y gallwn symud i gyfeiriad atebion cost-effeithiol a gwydn sy'n seiliedig ar natur;



Gyda galw uwch am goed brodorol i blannu coed ar draws y DU, mae'n debygol y bydd yna brinder coed a/neu dir ar gael ar gyfer plannu. Bydd hyn yn effeithio ar gost, amserlenni cyflawni a deilliannau dymunol ein prosiectau coetir o ran bioamrywiaeth. Dylem felly adolygu ein trefniadau caffael ac ystyried datblygu ein banc hadau ein hunain efallai, a fyddai'n cynorthwyo ein hanghenion ein hunain hefyd.



Working with Herefordshire Council at Luston we are helping to build their first constructed wetlands designed to offset the impact of new development on the river. This should be the first of several sites we can support in this way. This approach will not only protect the river from deterioration but it will also support increased biodiversity at the site.

FIND OUT MORE → DWRCYMRU.COM

TRI

GWELLA SUT MAE RHYWOGAETHAU GORESGYNNOL
ESTRON (INNS) YN CAEL EU RHEOLI

Rheoli Rhywogaethau Goresgynol Estron (INNS) yw un o'r sialensiau mwyaf i ni. Er mwyn i hyn fod yn llwyddiannus, mae angen arddel dull aml-asiantaeth/aml-barti integredig yn seiliedig ar ddalgylchoedd o'r tarddle i'r môr, am fod natur y rhywogaethau hyn yn golygu eu bod yn cael eu trosglwyddo'n rhwydd o ddalgylchoedd i fyny'r llif.

Yr unig ffordd ymarferol o fynd ati yw cysylltu'r adnoddau hynny sydd ar gael yng Nghymru mewn ymdrech integredig i reoli'r rhywogaethau goresgynol yma. I'r perwyl hwn, os bydd cyllid ar gael byddwn ni'n:



Datblygu dulliau adrodd mewnol ar gyfer INNS gan ddefnyddio'r data i ddatblygu llecynnau at ddibenion rheoli a rheolaeth â chynlluniau rheoli penodol fesul safle;



Parhau i gyfrannu ar fwrdd prosiect Rhwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru (WaREn) a gweithgor INNS Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn ogystal ag unrhyw grwpiau eraill o randdeiliaid er mwyn helpu i reoli INNS yn ein hasedau ac ar ein hystâd;



Gweithio gydag Adnoddau Dŵr o'r tîm Dalgylchoedd Dŵr Yfed i roi canfyddiadau'r prosiect Trosglwyddo Dŵr Crai ac INNS a gwblhawyd yn 2021 ar waith;



Llunio datganiad o'r sefyllfa ar reoli INNS ar gyfer DCWW gan amlinellu sut y byddwn ni'n mabwysiadu dull integredig o fynd ati i reoli rhywogaethau o'r fath;



Parhau i ddarparu arweiniad a chodi ymwybyddiaeth am INNS yn fewnol trwy gyfathrebu a thrwy'r llyfryn canllaw ar INNS;



Datblygu a chysylltu ein cydweithwyr fel cenhadon, a gweithio i ddeall disgwyliadau ein cwsmeriaid yn well.



Mae GlawLif yn parhau i arwain y ffordd wrth ddatblygu a defnyddio atebion newydd ac arloesol i reoli faint o ddŵr wyneb sy'n mynd i'r rhwydwaith o garthffosydd mewn ardaloedd trefol.

AM FANYLION → [DWRCYMRU.COM](https://www.dwrcymru.com)

PEDWAR

DATBLYGU A CHYSYLLTU EIN CYDWEITHWYR FEL
CENHADON A GWEITHIO I DDEALL DISGWYLIADAU
EIN CWSMERIAID YN WELL

Mae uwchsgilio ein timau mewnol yn flaenoriaeth er mwyn helpu i greu diwylliant mwy cadarnhaol fyth tuag at fioamrywiaeth a'r amgylchedd. Gyda mwy o ymwybyddiaeth gyhoeddus am yr argyfwng bioamrywiaeth sy'n ein hwynebu, bu newid yn ffocws ein cwsmeriaid i wneud peth iawn dros fyd natur.

Mae angen felly i ni:



Ddarparu hyfforddiant mewnol ar rywogaethau goresgynol estron ac amryw o bynciau eraill sy'n ymwneud â bioamrywiaeth;



Parhau i ddarparu gwell cysylltiadau mewnol, dogfennau canllaw, a gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer cydweithwyr;



Diweddarau ac ail-lansio pecyn e-Ddysgu ar fioamrywiaeth ar gyfer cydweithwyr;



Ail-lansio'r arweinwyr bioamrywiaeth ar draws y sefydliad er mwyn denu cenhadon newydd i godi ymwybyddiaeth;




Canfod disgwyliadau'r cwsmeriaid o ran bioamrywiaeth ac ecoleg, a bwydo'r rhain i'n dealltwriaeth ar gyfer PR24 a'r tu hwnt;



Pennu targedau mesuradwy (DPA, Mesuriadau o Lwyddiant) ar gyfer bioamrywiaeth;



Dathlu llwyddiannau'n fwy a chofleidio a rhannu'r gwersi a ddysgir.



Mae safleoedd ein Hatyniadau i Ymwelwyr yn hybiau ar gyfer iechyd a hamdden sy'n ailgysylltu ein cwsmeriaid â'r awyr agored, y dŵr a'r amgylchedd.

AM FANYLION → [DWRCYMRU.COM](https://www.dwrcymru.com)

PUMP

CYNNAL A GWELLA BIOAMRYWIAETH YN EIN HASEDAU GWEITHREDOL AC AR Y TIR SYDD YN EIN GOFAL

Mae dyletswydd statudol ar DCWW i gynnal a gwella bioamrywiaeth o dan adran 6 o Ddeddf Amgylchedd Cymru (2016). Am taw cyfyngedig yw'r data sydd ar gael am gyflwr ein hasedau o ran bioamrywiaeth, wrth i ni barhau i fwrw ymlaen â'n cynllun gweithredu mae angen i ni ddatblygu ein mesuriadau o fioamrywiaeth, ac yn benodol yr hyn y cyfeirir ato fel 'enillion net'.

Un o'r cyfleoedd mwyaf i ni fydd sut y gallwn fanteisio ar y Bil Amaethyddiaeth Gynaliadwy newydd a'i ffocws ar gyllid cyhoeddus er budd cyhoeddus, fel gwella bioamrywiaeth.

Er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth ar ein safleoedd, mae angen i ni ganfod y goblygiadau o ran cyllid, a lle bo hynny'n fforddiadwy:



Cyflawni astudiaethau gwaelodlin ym mhob ased gweithredol er mwyn canfod y gwaelodlin ac ailadrodd yr arolygon fel safon wedyn i gadarnhau cynnydd mewn perthynas ag 'enillion net';



Rhoi cynlluniau rheoli bioamrywiaeth ar waith ar gyfer safleoedd gweithredol a chynnwys hysbysfyrddau amgylcheddol mewn cyflwyniadau safle;



Creu pecynnau gofal (hadau blodau gwyllt, blychau adar, gwestai chwilod ac ati) â chanllawiau rheoli bioamrywiaeth y gellir eu defnyddio ar safleoedd gweithredol ac yn ein swyddfeydd er mwyn hybu bioamrywiaeth;



Defnyddio offeryn metrig 3.0 DEFRA i fesur enillion net o ran bioamrywiaeth fel mesuriad safonol ar draws y busnes;



Defnyddio confyddiadau ein rhaglen ymchwil wrth wneud penderfyniadau ar ein safleoedd yn y dyfodol.



Mae gwaith Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog (BBMC) gyda rhanddeiliaid yn creu gweledigaeth gyffredin ar y cyd a ddaw â'r deilliannau gorau posibl i bawb sy'n byw, yn gweithio ac yn manteisio ar Fannau Brycheiniog.

AM FANYLION → [DWRCYMRU.COM](https://www.dwrcymru.com)

Y CYNLLUN GWEITHREDU

— Y CYNLLUN GWEITHREDU CYFREDOL

Yn rhan o'n Dyletswydd o dan Adran 6, rydyn ni wedi cyhoeddi rhestr o weithredoedd o fewn ein cynllun bioamrywiaeth diweddaraf — Neilltuo Amser ar gyfer Natur 2020.

Mae ein cynllun yn cynnwys 30 o ymrwymadau (gweithredoedd) cyffredinol o bob rhan o'r busnes, a gadwyd o'r ymrwymadau gwreiddiol a gyhoeddwyd yn y cynllun cyntaf yn 2017. Gwnaed hynny er mwyn dangos datblygiad o'r cynllun gwreiddiol a thynnu sylw at y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'n huchelgeisiau gwreiddiol.

— CYNLLUNIAU GWEITHREDU'R DYFODOL

Er mwyn adlewyrchu diddordeb ein cwsmeriaid a'u parodrwydd i gynorthwyo ein gwaith i amddiffyn a gwella'r amgylchedd yn well, mae angen i ni fod yn fwy uchelgeisiol gyda'n hymrwymadau o ran bioamrywiaeth. Caiff hyn ei adolygu yn ein cynllun bioamrywiaeth nesaf, i'w gyhoeddi yn Rhagfyr 2023.

Bydd cynlluniau gweithredu'r dyfodol yn cynnwys cyfarwyddyd y Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol (NEP) a'r rhaglen gyfatebol yn Lloegr (WINEP). Dylai'r rhain sbarduno cynigion ac uchelgeisiau pellach a chaniatáu iddynt gael eu hariannu.

— CASGLIAD

Mae angen i lefel y gwaith monitro sydd ei angen i fwrw ymlaen â'n hagenda a'n mentrau bioamrywiaeth gynyddu fel y gallwn gysylltu'n fwy effeithiol ag awdurdodau lleol a chyrrff eraill fel CNC.

Wrth i ni symud i mewn i AMP8, gallwn weld synergedd rhwng ein hymrwymadau Carbon, yr angen am reoli gweithgoreddau yn well yn ein dalgylchoedd, adnoddau dŵr a lliniaru llifogydd, SuDs a throi cymunedau trefol yn wyrdd eto, a bioamrywiaeth. Yn aml, bioamrywiaeth yw'r 'man pêr' sy'n cysylltu buddsoddiadau ac ymgymeriadau o'r fath.

Rhaid i ni barhau i hybu ac ymarfer dull 'Tîm Cymru' o weithredu mewn perthynas â bioamrywiaeth, gan drosoli cyllid o'r byd academaidd, UKRI, Llywodraethau, Rheoleiddwyr a grwpiau eNGO fel y gallwn gydweithio i gyflawni ein dyletswyddau statudol yn y ffordd fwyaf effeithlon bosibl. Dim ond trwy hyn, a gyda chyllid digonol yn AMP8, y gallwn gyflawni ein cenhadaeth o ran bioamrywiaeth, sef - Cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth wrth gyflawni ein swyddogaethau er llesiant cenedlaethau heddiw a'r dyfodol, ac wrth wneud hynny, bodloni disgwyliadau uwch ein cwsmeriaid.



ER MWYN

CENEDLAETHAU'R

DYFODOL

dwrcymru.com